POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**YSTYRIED ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**Cefndir**

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir yn Adran 28(4) (d) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

**Adolygiad o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

Ystyriodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2020.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y newyddion diweddaraf ar gynnydd cyffredinol yn erbyn darpariaeth blaenoriaethau strategol Cynllun yr Heddlu a Throsedd. Tra bu pwysoliad cyfartal i'r pum blaenoriaeth strategol gan y Panel, cyflwynwyd y thema trosfwaol o 'leihau camfanteisio troseddol pobl ddiamddiffyn' llynedd ac roedd yn cael ei amlygu drwy gydol yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o'r canlynol hefyd:

- Gweithio mewn partneriaeth effeithiol
- Gwneud gwahaniaeth
- Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Blwyddyn o ddigwyddiadau
- Adroddiad Cynnydd Blaenoriaethau Strategol Heddlu a Throsedd 2018/19
- Crynodeb o'r Casgliadau
- Cyllid ac Arian
- Cysylltiadau.

Rhoddodd y panel sylwadau ac awgrymu diwygiadau i'r Adroddiad Blynyddol drafft; roedd y rhan fwyaf wedi cael eu cynnwys o fewn yr adroddiad terfynol.

Croesawodd y Panel yr ymgysylltiad a wnaed gan y Comisiynydd drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yng nghymunedau Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2018/19.**